



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft

Ionawr 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

<b>Cynulleidfa</b>	Byrddau iechyd lleol, pobl sy'n dymuno ymgeisio i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG a chyrrff cynrychiadol.
<b>Trosolwg</b>	Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 drafft
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim – er gwybodaeth yn unig
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	<p>Dylid anfon ymholiadau pellach ynglŷn â'r ddogfen hon at:</p> <p>Ymgynghoriad PNA Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llawr 4 Dwyrain G08 Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p><a href="mailto:pharmacy.appeals@gov.wales">pharmacy.appeals@gov.wales</a></p>
<b>Copïau ychwanegol</b>	Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru: <a href="https://llyw.cymru/rheoliadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-fferyllol-cymru-2020">https://llyw.cymru/rheoliadaur-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gwasanaethau-fferyllol-cymru-2020</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	<p>Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 drafft</p> <p><a href="https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-10/dogfen-ymgynggori_0.pdf">https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-10/dogfen-ymgynggori_0.pdf</a></p>

## Cynnwys

Crynodeb .....	4
Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid .....	4
Ymatebion.....	5
Cwestiynau a themâu .....	6
Asesiadau o Anghenion Fferyllol .....	6
Meddygon Fferyllol .....	10
Mynediad i'r Farchnad.....	11
Ymadael â'r Farchnad .....	13
Sylwadau i gloi a'r camau nesaf .....	19

## Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch cynigion i newid y ffordd y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu yng Nghymru trwy gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol. Bu'r ymgynghoriad ar waith rhwng 30 Medi a 25 Tachwedd 2019.

Bydd y Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 drafft arfaethedig (Rheoliadau 2020) yn cyflwyno'r gofyniad ar i fyrddau iechyd gynnal asesiadau o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan y bobl hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Byddant yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013).

Aeth yr ymgynghoriad ati i nodi'n fanwl y newidiadau hynny i'r fframwaith rheoleiddio presennol, ond nid ymdriniwyd â phob un o ddarpariaethau'r Rheoliadau 2020 drafft gan nad oes angen diweddarau'r holl ddarpariaethau.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn byrddau iechyd, pobl sy'n dymuno ymgeisio i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG neu wasanaethau meddyg fferyllol, a chyrrff proffesiynol â budd yng ngwasanaethau fferyllol y GIG, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol, ynghylch y Rheoliadau 2020 drafft a gynigiwyd gan Weinidogion Cymru.

## Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ar 11 Hydref 2019 cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Mynychwyd y digwyddiad gan amrywiaeth o gynrychiolwyr fferyllfeydd cymunedol, gofal sylfaenol a byrddau iechyd ac fe'i hwyluswyd gan Primary Care Commissioning, sydd wedi bod yn rhoi cyngor ynghylch datblygu'r polisi ar gyfer asesu anghenion fferyllol yng Nghymru.

Caiff y prif bwyntiau a godwyd eu crynhoi fel a ganlyn:

- **Gwasanaethau** – gofynnwyd sut bydd Asesiad o Anghenion Fferyllol yn cael ei ddefnyddio i reoli argaeledd gwasanaethau mewn ardal; pa newidiadau fyddai'n tanio ailasesiad; a pha un a oes posibilrwydd y bydd bwrdd iechyd yn gwrthod comisiynu gwasanaeth. Rydym wedi ymdrin â hyn yn ein hymateb i Gwestiwn 1 isod.
- **Ailasesu** – roedd yna beth ansicrwydd ynghylch pryd byddai ailasesiad yn angenrheidiol. Y teimlad oedd bod y termau "sylweddol" ac "anghymesur" yn oddrychol. Rydym wedi ymdrin â hyn yn ein hymateb i Gwestiwn 5 isod.
- **Darparwyr preifat, fferyllfeydd ar-lein ac ati** – gofynnwyd cwestiynau'n ymwneud â darparwyr gwasanaethau fferyllol, yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau fel Kaleidoscope ond a ariennir gan y system Cyfiawnder Troseddol; gwerthwyr o bell a fferyllfeydd yn Lloegr, yn enwedig o ran yr ardaloedd hynny sy'n rhannu ffin â Lloegr. Deellir y dylai Asesiad o Anghenion Fferyllol gydnabod gwasanaethau o'r fath, ond ni fydd eu presenoldeb o angenrheidrwydd yn newid yr asesiad o'r angen.
- **Ymgynghoriad ac amserlenni** – Nodwyd nad yw 6 mis o'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym yn rhoi digon o amser, o bosibl, i lunio'r Asesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf. Rydym wedi ymdrin â hyn yn ein hymateb i Gwestiwn 4 isod.

- **Mynediad i'r Farchnad** – Gofynnwyd a ddylai bwrdd iechyd bennu gorddarpariaeth fel rhan o'i Asesiad o Anghenion Fferyllol. Fodd bynnag, mae ein hymatebion i gwestiynau 12-17 yn ymdrin â'r pwyntiau hyn yn fanylach.
- **Ymadael â'r Farchnad** – Gofynnwyd nifer o gwestiynau, ond cawsant eu gofyn hefyd yn ystod yr ymgynghoriad. Felly, rydym wedi ymdrin â'r rhain yn fanylach yn ein hymateb i gwestiynau 18-23.

Yn y digwyddiad cafodd y mynychwyr eu hannog i gyflwyno eu cwestiynau neu eu sylwadau fel rhan o'u hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Ymdrinnir â'r materion hynny a drafodwyd yn y digwyddiad, ac sydd wedyn wedi ffurfio rhan o ymateb ymgynghorai, yn ymateb perthnasol Llywodraeth Cymru isod.

## Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 19 ymateb i'r ymgynghoriad gan gymysgedd o gynrychiolwyr byrddau iechyd, fferyllwyr annibynnol, cadwyni fferyllfeydd mawr a chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau fferyllwyr a gwasanaethau meddygon teulu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a neilltuodd amser i gyflwyno sylwadau.

# Cwestiynau a themâu

## Asesiadau o Anghenion Fferyllol

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r holl wasanaethau a ddarperir o dan adrannau 80 ac 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau fferyllol at ddibenion y Rheoliadau?**

Cytuno: 19

Anghytuno: 0

Heb gytuno nac anghytuno: 0

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a ddarperir o dan adrannau 80 ac 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau fferyllol.

Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr beth fyddai'n digwydd mewn sefyllfa ddamcaniaethol lle mae bwrdd iechyd wedi nodi angen ar gyfer gwasanaeth arbennig yn ei Asesiad o Anghenion Fferyllol, ond yna'n dewis peidio â chomisiynu'r gwasanaeth hwnnw.

Yn ein tyb ni, er bod y sefyllfa hon yn annhebygol, mater i'r byrddau iechyd yn y pen draw yw penderfynu pa wasanaethau maent yn dymuno eu comisiynu a phryd, ar sail eu hasesiad o angen yn eu hardal. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant presennol lle mae contractwyr yn datgan yn bendant yn eu cais pa wasanaethau y dylid eu darparu yn eu tyb nhw.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl wasanaethau fferyllol, ac a oes unrhyw bobl eraill sy'n darparu'r gwasanaethau hyn y dylid eu hystyried?**

Cytuno: 16

Anghytuno: 3

Heb gytuno nac anghytuno: 1

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl wasanaethau fferyllol. Ar gyfer ail ran y cwestiwn, awgrymodd tri ymatebydd y dylid ystyried Contractwyr Cyfarpar Fferyllol. Hefyd, cynigiwyd canolfannau fferyllol a gwasanaethau meddygol y tu allan i oriau.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr fod y diffiniad o wasanaethau fferyllol yn adran 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) yn awgrymu gwasanaethau fferylliaeth o bob math ac y gellir eu darparu felly gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd ynghylch Meddygon Fferyllol ac rydym wedi nodi'r pryderon a godwyd. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau drafft er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd amcanion y polisi heb arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu bod unrhyw beth y gellid ei ychwanegu at y rhestr o wybodaeth ofynnol i wella cynnwys asesiad o anghenion fferyllol?**

Ydwyf: 11

Nac ydwyf: 8

Dim ymateb: 0

O blith y rhai a ymatebodd, roedd wyth yn fodlon nad oedd unrhyw beth arall y byddent yn ei ychwanegu at y rhestr o wybodaeth ofynnol. Cyflwynodd un ar ddeg o'r rhai a ymatebodd nifer o awgrymiadau, yn cynnwys:

- Cysylltu â strategaethau ystadau gofal sylfaenol;
- Adolygu natur wledig ardaloedd a rhestrau meddygon fferyllol bob pum mlynedd gyda phob Asesiad o Anghenion Fferyllol newydd;
- Lefelau amddifadedd, yn arbennig amddifadedd gwledig;
- Ardaloedd lle ceir gormod o ddarpariaeth;
- Ystyried safleoedd fferyllfeydd presennol, oherwydd efallai fod rhai'n anaddas ar gyfer darparu rhai gwasanaethau;
- Rhaglenni cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau tebyg – cynigiwyd Dim Smygu Cymru fel un enghraifft;
- Gwasanaethau fferyllol newydd a fydd ar gael yn ystod oes yr Asesiad o Anghenion Fferyllol, fel Profi a Thrin Dolur Gwddf.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan ein bod wedi cael nifer o geisiadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ar nifer o elfennau yn y Rheoliadau newydd, ein barn ni yw y byddai'n well ymdrin â'r awgrymiadau hyn am wybodaeth ychwanegol mewn canllawiau o'r fath yn hytrach nag yn y Rheoliadau eu hunain. Ein barn ni yw y dylai'r wybodaeth y mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ei chynnwys mewn Asesiad o Anghenion Fferyllol gwmpasu'r awgrymiadau a wnaed.

<b>Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod y cyfnod o bum mlynedd rhwng asesiadau o anghenion fferyllol yn briodol?</b>		
Cytuno: 19	Anghytuno: 0	Heb gytno nac anghytuno: 0

Roedd pob un o'r 19 a ymatebodd yn cytuno bod pum mlynedd yn gyfnod priodol rhwng asesiadau.

Fodd bynnag, roedd y byrddau iechyd a ymatebodd yn pryderu na fyddai'r chwe mis arfaethedig yn ddigon o amser i gwblhau eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf, yn enwedig wrth ystyried yr angen i gyfieithu'r Asesiad ac ymgynghori yn ei gylch. Nodwyd hefyd fod Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (Grwpiau Comisiynu Clinigol erbyn hyn) yn Lloegr yn cael deuddeg mis i gwblhau eu hasesiadau cyntaf.

Yn ôl y drafft presennol, ar ôl dod i rym bydd y Rheoliadau'n atal ceisiadau newydd rhag cael eu cynnwys ar y Rhestr Fferyllol am gyfnod o chwe mis, yn ogystal ag unrhyw Adleoliadau parhaol (bydd adleoliadau dros dro'n parhau i gael eu caniatáu yn ystod y cyfnod hwn). Cafodd y cyfnod o chwe mis ar gyfer cwblhau'r Asesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf ei gynnig fel cyfaddawd rhwng anghenion busnes contractwyr a'r angen i roi cyfle i fyrddau iechyd asesu eu hanghenion fferyllol presennol heb orfod rhoi cyfrif am yr hyn a all, yn aml, fod yn newidiadau mynych i argaeledd neu leoliad gwasanaethau fferyllol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wrthi'n ystyried nifer o opsiynau, yn cynnwys ymestyn y cyfnod ar gyfer cwblhau'r asesiad cyntaf a gohirio'r cyfnod atal ar geisiadau er mwyn iddo gychwyn yn ddiweddarach.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r bwrdd iechyd fod o dan ddyletswydd i ddiwygio ei asesiad o anghenion fferyllol unwaith iddo ystyried bod newidiadau sylweddol i'r amgylchiadau yn ei ardal; er enghraifft, datblygiad tai mawr?**

Cytuno: 19

Anghytuno: 0

Heb gytuno nac anghytuno: 0

Unwaith eto, roedd pob un o'r 19 a ymatebodd yn cytuno y dylai'r bwrdd iechyd fod o dan ddyletswydd i ddiwygio ei asesiad unwaith iddo ystyried bod newidiadau sylweddol i'r amgylchiadau yn ei ardal. Fodd bynnag, nododd nifer o'r gohebwyd fod modd dehongli "sylweddol" mewn mwy nag un ffordd, ac o'r herwydd bod angen diffinio'r hyn y dylai newid sylweddol ei olygu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Fe fydd cynnwys "sylweddol" yn osgoi'r angen i roi dyletswydd rhy feichus ar fyrddau iechyd lleol i lunio Asesiad o Anghenion Fferyllol pa bryd bynnag y ceir unrhyw newid mewn amgylchiadau yn eu hardal. Ein barn ni yw mai Byrddau Iechyd Lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu fesul achos a yw unrhyw newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn eu hardal yn sylweddol, ai peidio, a pha un a oes angen iddynt lunio Asesiad o Anghenion Fferyllol newydd.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno gyda'r rhestr o bobl y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ar gynnwys asesiad?**

Cytuno: 19

Anghytuno: 0

Heb gytuno nac anghytuno: 0

O blith yr ymatebion a gafwyd, roedd pob un o'r 19 yn cytuno gyda'r rhestr o bobl y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ar gynnwys yr asesiad. Fodd bynnag, cafwyd nifer o awgrymiadau ychwanegol, yn cynnwys:

- y lluoedd arfog (pan fo hynny'n briodol);
- Pwyllgorau Meddygol Lleol cyfagos;
- Grwpiau Comisiynu Clinigol a Phwyllgorau Meddygol Lleol yn Lloegr, pan fo bwrdd iechyd o Gymru yn rhannu ffin.

Ceir ail ran i'r cwestiwn hwn. Yng Nghwestiwn 7, gofynnwyd a oes unrhyw bobl eraill y dylid ymgynghori â nhw:

**Cwestiwn 7: A oes unrhyw bobl eraill y dylid ymgynghori â nhw?**

Oes: 11

Nac oes: 8

Dim ymateb: 0

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, cyflwynodd 11 awgrymiadau ar gyfer partïon ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn ymgynghoriadau byrddau iechyd, yn cynnwys:

- Contractwyr cyfagos ar y rhestr fferyllol;
- Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol Byrddau Iechyd;
- Cyfarwyddwyr Cynllunio Byrddau Iechyd;
- Timau Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd;
- Darparwyr gwasanaethau meddygol sylfaenol (yn cynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau);
- Clystyrau gofal sylfaenol;
- Pwyllgorau Fferyllol Lleol yn Lloegr;



- Cyrff Partneriaeth Rhanbarthol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno gyda'r awgrym i gynnwys Cyrff Partneriaeth Rhanbarthol ar y rhestr o ymgynghoreion gorfodol. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr o bobl y dylid ymgynghori â nhw yn y Rheoliadau 2020 drafft yn hollgynhwysfawr; yn hytrach, mae'n cynnwys y partion sylfaenol mae'n rhaid i fyrddau iechyd ymgynghori â nhw. Wrth gwrs, mae modd iddynt ymgynghori'n fwy eang, os yw hynny'n briodol i'w lleoliad daearyddol. Yn y pen draw, byrddau iechyd sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa mor eang y dylent ymgynghori, y tu hwnt i'r partion sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau.

<b>Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer y bwrdd iechyd yn cyhoeddi ei asesiad?</b>		
Cytuno: 17	Anghytuno: 2	Heb gytuno nac anghytuno: 0

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd 17 yn cytuno â'r broses ar gyfer y bwrdd iechyd yn cyhoeddi asesiad. Fodd bynnag, roedd nifer o themâu cyffredin yn rhedeg trwy'r sylwadau a gyflwynwyd, yn cynnwys:

- Datganiadau ategol – dylai ymgynghoreion gael eu hysbysu pan fydd bwrdd iechyd yn cyhoeddi datganiad ategol; a dylai'r datganiad ategol hwnnw gael ei gyhoeddi ar-lein yn yr un lleoliad â'r Asesiad o Anghenion Fferyllol diweddaraf;
- Dylai Asesiadau o Anghenion Fferyllol gael eu cyhoeddi mewn lleoliad cyson ar draws pob bwrdd iechyd, yn y ddwy iaith, ynghyd ag unrhyw ddatganiadau ategol;
- Mae angen cael 'rhestr fyw' o'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhob fferyllfa.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno â'r awgrym i hysbysu ymgynghoreion pan fydd datganiad atodol wedi'i gyhoeddi, a byddwn yn newid y Rheoliadau drafft yn unol â hynny.

Mae gwaith ar y gweill i lunio rhestr fyw o wasanaethau fferyllol fel rhan o Gyfeirlyfr Gwasanaethau GIG Cymru.

Fodd bynnag, er ein bod yn gobeithio bod byrddau iechyd yn defnyddio dull cyson o gyhoeddi eu Hasesiadau o Anghenion Fferyllol, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol nodi mewn deddfwriaeth sut dylid eu cyflwyno ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol.

<b>Cwestiwn 9: A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai bwrdd iechyd roi sylw iddynt wrth wneud asesiad?</b>		
Oes: 8	Nac oes: 11	Dim ymateb: 0

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd 11 yn fodlon â'r ffactorau mae'n rhaid i fyrddau iechyd roi sylw iddynt wrth wneud asesiad. Fodd bynnag, cyflwynodd 8 ymatebydd nifer o awgrymiadau'n ymwneud â ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried, yn cynnwys:

- Strategaethau Ystadau Gofal Sylfaenol a buddsoddiad cyfalaf arfaethedig;
- Newidiadau demograffig;
- Argaeledd trafnidiaeth;
- Effeithiau amgylcheddol (yn enwedig cymunedau sy'n ddibynnol ar geir);
- Darpariaeth yn y dyfodol gan contractwyr presennol;
- Amddifadedd gwledig;

- Safleoedd fferyllfeydd presennol a pha un a oes modd iddynt fodloni anghenion cynyddol.

Yn ychwanegol at yr uchod, ailadroddodd nifer o ymatebwyr yr angen am ganllawiau cynhwysfawr a thempled safonedig ar gyfer llunio Asesiad o Anghenion Fferyllol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws byrddau iechyd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Er mai byrddau iechyd sydd yn y sefyllfa orau i bennu anghenion a heriau arbennig yn ymwneud â'u poblogaeth, byddwn yn darparu canllawiau er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd yn ystyried ystod eang o ffactorau nad ydynt yn amlwg yn syth, yn ogystal â sicrhau cysondeb. Bydd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r canllawiau angenrheidiol.

### Meddygon Fferyllol

<b>Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai'n briodol cynnal y rhestrau fferyllol a'r rhestrau meddygon fferyllol presennol pan fydd Rheoliadau 2020 yn dod i rym?</b>		
Cytuno: 19	Anghytuno: 0	Heb gytuno nac anghytuno: 0

Roedd pob un o'r 19 ymatebydd o'r farn ei bod yn briodol cynnal y rhestrau fferyllol a'r rhestrau meddygon fferyllol presennol pan ddaw Rheoliadau 2020 i rym. Fodd bynnag, thema hollbwysig yn y sylwadau a gafwyd oedd y perygl y byddai byrddau iechyd yn cael ceisiadau tybiannol wrth iddynt baratoi eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ymwybodol o berygl ceisiadau tybiannol ac rydym wedi ceisio eu lleihau trwy gynnwys cyfnod 'gwahardd symud' yn Rheoliadau 2020 pan ddônt i rym. Yn ystod y cyfnod 'gwahardd symud', ni fydd unrhyw gais newydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys. Ar ôl i'r asesiad gael ei gyhoeddi, bydd yn nodi'r anghenion fferyllol na chawsant eu diwallu o safbwynt poblogaeth y bwrdd iechyd ynghyd â'r mathau o geisiadau y byddai'r bwrdd iechyd yn eu hystyried ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Yn hollbwysig, nid lle'r contractwr mwyach fydd datgan bod angen fferyllfa newydd. Yn hytrach, lle'r bwrdd iechyd fydd penderfynu ar yr angen am wasanaethau fferyllol a phenderfynu a ddylid derbyn unrhyw gais a wneir mewn perthynas â'r anghenion a nodir.

Yn ôl pob tebyg, bydd ceisiadau nad ydynt yn dangos eu bod yn diwallu angen mewn Asesiad o Anghenion Fferyllol perthnasol yn methu'r prawf newydd.

<b>Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnal ardaloedd rheoledig a ddiffiniwyd yn flaenorol?</b>		
Cytuno: 14	Anghytuno: 5	Heb gytuno nac anghytuno: 0

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd 14 yn cytuno y dylid cynnal ardaloedd rheoledig a ddiffiniwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, ymddengys fod y rhan fwyaf o'r sylwadau'n cytuno y dylid adolygu ardaloedd rheoledig o dro i dro ac y dylai'r holl fapiau a'r holl ddogfennau gael eu diweddarau a'u cynnwys yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel gyda Rheoliadau 2013, wrth ymateb i gais a gyflwynwyd yn ysgrifenedig gan Bwyllgor Meddygol Lleol neu Bwyllgor Fferyllol Lleol, neu ar unrhyw adeg y bydd yn penderfynu gwneud hynny, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ystyried a yw unrhyw ardal arbennig o fewn yr ardal y cafodd ei sefydlu o'i herwydd, ar sail ei natur wledig, yn lleoliad rheoledig neu'n rhan o leoliad rheoledig. Er y byddem yn disgwyl i fyrddau iechyd adolygu eu lleoliadau rheoledig o dro i dro, ni fyddwn yn pennu gofyniad arnynt i wneud hynny fel rhan o'r broses Asesu Anghenion Fferyllol ar hyn o bryd.

### Mynediad i'r Farchnad

<b>Cwestiwn 12: Ydych chi'n credu ei bod hi'n briodol newid y prawf o ganlyniad i gyflwyno asesiad o anghenion fferyllol?</b>		
Ydwyf: 15	Nac ydwyf: 3	Heb gytuno nac anghytuno: 1

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd 15 o'r farn ei bod hi'n briodol newid y prawf. Fodd bynnag, daeth nifer fechan o themâu cyffredin i'r amlwg yn y sylwadau a gafwyd, yn cynnwys:

- Dylid rhoi cyfle i gontractwyr presennol fodloni unrhyw angen a nodir cyn i geisiadau newydd gael eu caniatáu;
- Os caiff cais newydd ei ganiatáu, dylai'r rhesymau dros ei ganiatáu fod yn agored i apêl.

<b>Cwestiwn 13: A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso i'r prawf hwn?</b>		
Oes: 8	Nac oes: 11	Heb gytuno nac anghytuno: 0

Yn dilyn cwestiwn 12, rhoddodd cwestiwn 13 gyfle i nodi meini prawf ychwanegol y dylid eu cymhwyso i'r prawf newydd. O blith y rhai a ymatebodd, roedd 11 yn fodlon â'r meini prawf fel y maent, ond cyflwynodd 8 awgrymiadau ychwanegol, yn cynnwys:

- Dylid rhoi cyfle i gontractwyr presennol ddiwallu angen cyn i geisiadau ychwanegol gael eu hystyried;
- Mae angen eglurhad ynghylch sut gellir rheoli mynediad, yn enwedig o ran ceisiadau sy'n ymgeisio yn erbyn ei gilydd;
- Gallai'r diffyg darpariaeth o safbwynt ceisiadau "buddion nas rhagwelwyd" arwain at feirniadaeth gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, sef eu bod yn wrthgystadleuol;
- Mae angen canllawiau ar newid y derminoleg o "rhaid caniatáu" i "gellir caniatáu" ac ym mha sefyllfaoedd y gall fod yn briodol i fwrdd iechyd wrthod cais, fel y rhai a nodir yn Rheoliadau cyfatebol GIG Lloegr, yn arbennig felly y cynnydd nas dymunir mewn gwasanaethau hanfodol; bod angen a nodir ar gyfer y dyfodol yn annhebygol o godi ac ati.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar ôl i Asesiad o Anghenion Fferyllol gael ei gyhoeddi, mae modd i geisiadau gael eu cyflwyno gan unrhyw un sy'n credu y gall ddiwallu angen a nodir. Wrth gwrs, mae hyn yn cynnwys contractwyr presennol, ond ni fydd y contractwyr hyn yn cael statws mwy

ffafriol gan fwrdd iechyd wrth ystyried ceisiadau, a rhaid i'r holl geisiadau gael eu hystyried mewn modd gwrthrychol ar sail eu teilyngdod. Byddwn yn ystyried a ddylid diwygio'r Rheoliadau drafft i gynnwys rhesymau posibl dros wrthod cais, ynteu a ddylid cynnwys y rhain mewn canllawiau.

Rydym wedi dilyn profiad Lloegr yn frwd ac wedi nodi barn rhanddeiliaid mewn perthynas â cheisiadau "buddion nas rhagwelwyd". Mae hyn wedi llywio ein penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaethau o'r fath yn ein rheoliadau. Cyn belled ag y bydd bwrdd iechyd yn cyflwyno asesiad trylwyr o'i anghenion fferyllol, credwn ei bod yn amlwg na ddylai unrhyw fudd fod yn "fudd nas rhagwelwyd".

<b>Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu adleoliad bach ar gyfer eiddo?</b>		
Cytuno: 13	Anghytuno: 6	Heb gytuno nac anghytuno: 0

Er bod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan o blaid y cynnig, gydag 13 o blith yr 19 ymateb yn cytuno ag ef, cyflwynwyd nifer o bwyntiau croes gan y rhai a ymatebodd. Yn arbennig, ceid pryderon y gallai cyfyngu adleoliadau i'r rhai sy'n diwallu angen atal fferyllfa rhag adleoli i eiddo mwy addas neu ymateb i amgylchiadau nas rhagwelwyd. Awgrymodd tri ymatebydd mai "adleoliad bach iawn" y dylid ei ganiatáu yn y Rheoliadau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn fodlon bod y darpariaethau adleoli yn y Rheoliadau 2020 drafft yn darparu'n ddigonol ar gyfer yr adleoliadau hynny y byddent yn flaenorol wedi'u pennu dan ddarpariaethau Adleoliad Bach Rheoliadau 2013.

<b>Cwestiwn 15: Ydych chi'n credu mai dim ond pan fo angen wedi'i nodi yn asesiad y bwrdd iechyd a chyn belled nad yw'n rhoi pobl sydd wedi arfer cael mynediad at wasanaethau yn y lleoliad presennol o dan anfantais y dylid caniatáu symud rhwng ardaloedd bwrdd iechyd?</b>		
Cytuno: 13	Anghytuno: 6	Heb gytuno nac anghytuno: 0

Unwaith eto, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan o blaid y cynnig, gydag 13 o blith yr 19 ymateb yn cytuno ag ef. Fodd bynnag, roedd nifer yn ansicr sut byddai'r cynnig yn gweithio'n ymarferol a gofynnwyd am senarios enghreifftiol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r sylwadau a gafwyd ynghylch senarios enghreifftiol a byddwn yn mynd ati i'w cynnwys mewn unrhyw ganllawiau a luniwn.

<b>Cwestiwn 16: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y diwygiad canlyniadol hwn?</b>	
Oes: 8	Nac oes: 11

Cyflwynodd wyth o'r ymatebwyr sylwadau; roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r syniad o gael gwared â'r cyfnod ymgynghori 30 diwrnod ar gyfer adleoliadau dros dro. Fodd bynnag, nododd un sylw y gellid cael enghreifftiau lle byddai'r safle gwreiddiol y mae fferyllfa wedi symud ohono dros dro wedi cael difrod y tu hwnt i waith atgyweirio economaidd ac na fyddai'r fferyllfa, o'r herwydd, yn gallu dychwelyd yno.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Ceir cwmpas digonol yn y Rheoliadau 2020 drafft i alluogi adleoliad yn y senario a amlinellir. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried pa un a oes angen cyflwyno newidiadau i'r darpariaethau adleoli yn y Rheoliadau newydd er mwyn ymdrin yn benodol â sefyllfa o'r fath.

<b>Cwestiwn 17: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer cynnwys ymgeiswyr ar y rhestr o dan amodau penodol?</b>	
---	--

Oes: 8	Nac oes: 11
--------	-------------

Cafwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â rheoliad 46. Dywedodd yr ymgynghoreion y byddai Rheoliad 46 yn cael yr effaith o droi'r holl oriau craidd a'r holl oriau ychwanegol yn oriau craidd pan gaiff cais ei ganiatáu. Awgrymwyd mai dim ond i geisiadau ar gyfer diwallu angen a nodir mewn Asesiad o Anghenion Fferyllol y dylai Rheoliad 46 fod yn berthnasol, nid i geisiadau i adleoli am resymau eraill, neu newid mewn perchnogaeth.

Nodwyd hefyd fod rheoliad 46(4), sy'n ymwneud â'r tair blynedd cyn i amrywiad fod yn bosibl, yn anghyson ag oes pum mlynedd Asesiad o Anghenion Fferyllol.

Tynnwyd sylw at wall teipio yn y Rheoliadau 2020 drafft yn ymwneud â rheoliad 47(4), lle cyfeirir at baragraff 5 nad yw'n bodoli yn y drafft.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth gwerthfawr hwn. Nid ymgorffori oriau ychwanegol yn yr oriau craidd yw swyddogaeth arfaethedig Rheoliad 46. Felly, byddwn yn ystyried y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gweithredu'n briodol.

Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod angen i'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef yn rheoliad 46(4) gyfateb i'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol.

Rydym wedi nodi a chywiro'r gwall teipio y tynnwyd sylw ato yn y Rheoliadau drafft.

## Ymadael â'r Farchnad

<b>Cwestiwn 18: A oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â datrys anghydfod yn lleol cyn cyflwyno hysbysiadau adfer?</b>	
--	--

Oes: 9	Nac oes: 10
--------	-------------

Cyflwynwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn galw ar i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau er mwyn sicrhau bod dull cytunedig o ddatrys anghydfod yn cael ei ddilyn. Awgrymwyd hefyd y dylid hepgor Rheoliad 49(3)(b)(i), ar y sail y dylai materion o'r fath gael eu hystyried dan drefniadau datrys anghydfod yn lleol, ac ychwanegwyd bod rheoliadau cyfatebol yn Lloegr wedi cael eu diwygio fel na ellir cyflwyno hysbysiad hyd nes y bydd y contractwr wedi rhoi esboniad a hyd nes y gellir asesu "achos da" dros fethu ag agor.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bennu dull cytunedig o ymdrin â nifer o faterion, yn cynnwys sut i ddatrys anghydfod.

<b>Cwestiwn 19: A oes unrhyw wybodaeth arall y dylai hysbysiad adfer ei chynnwys?</b>	
---	--

Oes: 5	Nac oes: 14
--------	-------------

Cafwyd nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf yn gofyn am ganllawiau manwl i sicrhau bod dull cyson yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru ar gyfer ymdrin â hysbysiadau adfer. Hefyd, cafwyd nifer o gwestiynau'n ymwneud â sut byddai'r hysbysiadau'n cael eu monitro yn achos aildroseddwr.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid diwygio Rheoliad 50 er mwyn nodi y gellir cyflwyno hysbysiadau adfer pan fo modd unioni tor-amod i raddau helaeth, er enghraifft cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol ar ôl y dyddiad cau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bennu dull cytunedig, yn cynnwys sut i ymdrin â hysbysiadau torri amodau a hysbysiadau adfer.

<b>Cwestiwn 20: A yw'r telerau y gall y bwrdd iechyd dynnu taliad yn ôl am dorri telerau gwasanaeth oddi tanynt yn briodol?</b>		
---	--	--

Cytuno: 14	Anghytuno: 4	Heb gytuno nac anghytuno: 1
------------	--------------	-----------------------------

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, roedd 14 yn credu bod y telerau y gall bwrdd iechyd dynnu taliad yn ôl oddi tanynt yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd y dylai taliadau a dynnir yn ôl ymwneud yn unig â'r gwasanaeth na chafodd ei ddarparu, a nodwyd bod gwasanaethau fel gwasanaethau fferyllol yn cael ad-daliad rhannol am feddyginiaethau a gyflenwir.

Unwaith eto, nododd mwyafrif yr ymatebion bod angen canllawiau gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau dull cyson ar draws Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bennu dull cytunedig, yn cynnwys sut i ymdrin â thynnu taliad yn ôl mewn perthynas â thorri telerau gwasanaeth.

Dylai unrhyw benderfyniad i dynnu taliad yn ôl fod yn gymesur â lefel y tor-amod.

<b>Cwestiwn 21: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y broses o gyflwyno hysbysiadau adfer a hysbysiadau torri amodau?</b>	
--	--

Oes: 4	Nac oes: 15
--------	-------------

O blith yr 19 ymateb a gafwyd, dim ond 4 a oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y broses o gyflwyno hysbysiadau adfer a hysbysiadau torri amodau. Unwaith eto, roedd y

sylwadau hyn yn ailadrodd y galw am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y dylid anfon copïau o hysbysiadau at berchnogion busnesau neu fferyllwyr arolygol, nid i'r safle dan sylw yn unig.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bennu dull cytunedig, yn cynnwys sut i ymdrin â hysbysiadau adfer a hysbysiadau torri amodau.

**Cwestiwn 22: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer tynnu rhywun oddi ar restr fferyllol mewn perthynas â materion perfformiad?**

Oes: 8

Nac oes: 11

Er bod nifer o sylwadau wedi'u cyflwyno ar y cwestiwn hwn, y thema hollbwysig a ddaeth i'r amlwg oedd diffyg unrhyw ddarpariaeth yn ymwneud ag atal dros dro tra'n disgwyl i gamau adfer gael eu cwblhau.

Roedd sylwadau eraill a gafwyd yn ymwneud â sicrhau cymesuredd a chadarnhad mai rhywbeth y dylid ei wneud 'pan fetho popeth arall' yw tynnu oddi ar y rhestr.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno mai rhywbeth y dylid ei wneud 'pan fetho popeth arall' yw tynnu oddi ar y rhestr fferyllol. Ni chredwn y byddai cynnwys darpariaeth yn ymwneud ag atal dros dro yn y broses hysbysiadau adfer yn gymesur yn yr amgylchiadau.

**Cwestiwn 23: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar apelio yn erbyn penderfyniadau bwrdd iechyd mewn perthynas â materion perfformiad?**

Oes: 7

Nac oes: 11

Cafwyd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Cânt eu crynhoi fel a ganlyn:

- Rhaid i'r broses apelio fod yn amserol, gan fynd i'r afael â pherfformiad gwael yn ddi-oed;
- Dylid rhoi copïau o hysbysiadau i berchennog y busnes neu'r fferylllydd arolygol;
- Y posibilrwydd o faich gweinyddol sylweddol, o gofio'r nifer posibl o hysbysiadau y gall fod angen eu cyflwyno.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfnod 'gwahardd symud' hwn a'r amserlenni hyn?**

Cytuno: 13

Anghytuno: 4

Heb gytuno nac anghytuno: 2

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cysyniad 'gwahardd symud', roedd mwyafrif y sylwadau hefyd yn adleisio pryderon nad oedd chwe mis yn rhoi digon o amser i baratoi, cyfieithu ac ymgynghori ar Aseiad o Anghenion Fferyllol drafft, a

nodwyd bod Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr yn cael deuddeg mis i fynd i'r afael â'r un dasg.

Hefyd, roedd yna beth dryswch ynghylch pa fathau o geisiadau y byddai'r cyfnod 'gwahardd symud' yn berthnasol iddynt.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 4, a chan roi ystyriaeth i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym wrthi'n ystyried nifer o opsiynau.

Dylid nodi bod rheoliad 1(2) y Rheoliadau drafft – sy'n pennu pa adrannau a ddaw i rym, a phryd – yn nodi y bydd Rheoliadau 15-18 yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2020. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau gan fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG ar gyfer eu cynnwys ar restrau fferyllol neu ddiwygio rhestrau fferyllol, yn benodol felly, ceisiadau ar gyfer eu cynnwys; ceisiadau ar gyfer cydsyniad rhagarweiniol; a cheisiadau gan feddygon fferyllol i'w cynnwys, yn ôl y drafft presennol. Roedd y rheoliadau'n ymwneud yn benodol ag adleoliadau – rhai parhaol a dros dro – a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2020.

<b>Cwestiwn 25: A ydych chi'n rhagweld y bydd y rheoliadau drafft yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol?</b>		
---	--	--

Ydwyf: 7	Nac ydwyf: 9	Dim ymateb: 3
----------	--------------	---------------

Er bod nifer o ymatebion wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, codwyd nifer ohonynt fel rhan o ymatebion cynharach, yn arbennig:

- Rheoliad 46 a'i effaith ar oriau agor craidd;
- Gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i wasanaethau adrannau 80 ac 81 o safbwynt fferyllwyr a meddygon fferyllol;
- Y cyfnod o chwe mis ar gyfer llunio'r Asesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ymateb i bob un o'r pwyntiau hyn yn fwy manwl uchod.

<b>Cwestiwn 26: A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech chi eu gwneud ynglŷn â'r cynigion a amlinellir yn y rheoliadau drafft?</b>		
--	--	--

Oes: 11	Nac oes: 6	Dim ymateb: 2
---------	------------	---------------

Cyflwynwyd nifer fawr o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Cânt eu crynhoi fel a ganlyn:

- Dylai Atodlen 3 roi'r pŵer i Fyrddau lechyd Lleol ohirio ystyried ceisiadau i wahodd ymgeiswyr o blith darparwyr presennol os ystyrir bod hyn yn briodol, er mwyn osgoi gorgyflenwi gwasanaethau hanfodol;
- Dylai'r rheoliadau leihau ceisiadau ffug, a chynamserol yn aml, mewn perthynas â fferyllfeydd;
- Mae'r cynigion yn gam pwysig ymlaen ar gyfer y boblogaeth o ran ategu cynllunio a buddsoddi hirdymor mewn gwasanaethau fferyllol a dargedir yn briodol at anghenion y boblogaeth;
- Dylid cynnwys protocolau'n ymwneud â phrinder difrifol yn nrafft terfynol y Rheoliadau hyn;



- Ni cheir darpariaeth ‘gwrthwynebiad cydwybodol’ o fewn y rheoliadau;
- Dylid cael tegwch rhwng darparwyr gwasanaethau fferyllol, yn cynnwys meddygon fferyllol a chontractwyr cyfarpar, o ran delio â thorri amodau’n ymwneud â gwasanaethau fferyllol.

Hefyd, cyflwynwyd nifer o awgrymiadau’n ymwneud â thelerau gwasanaeth, yn cynnwys:

- Ymdrinnir â’r gofyniad o ran Gweithdrefnau Gweithredu Safonol gan ofynion y Pwyllgor Fferyllol Cyffredinol ac o’r herwydd mae’n ddyblygiad diangen;
- Mae gwerth yr Holiadur Fferyllwyr Cymunedol yn ddibwys. Byddem yn awgrymu gweithio gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar ddewis amgen, mwy defnyddiol ac amserol, fel rhan o’r cynllun ansawdd;
- Pam mae angen darparu gwybodaeth am Gymhwyster i Ymarfer ar y ffurflen gais pan fyddai modd anfon cais at y Bwrdd Iechyd Lleol cartref;
- Mae rôl yr archwiliad seiliedig ar bractis ac archwiliad y Bwrdd Iechyd Lleol yn ddadleuol, o gofio nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd dan y cynllun ansawdd. Byddai’n well cynnal archwiliadau cenedlaethol yn unig.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Er na ofynnwyd yn yr ymgynghoriad hwn am sylwadau ar yr elfen yn y Rheoliadau drafft sy’n ymwneud â thelerau gwasanaeth, rydym yn ddiolchgar i’r rhai a ymatebodd am gymryd yr amser i wneud hynny, a byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a gyflwynwyd fel rhan o drafodaethau contract parhaus gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

**Cwestiwn 27: Hoffem gael eich barn am yr effeithiau y câi’r rheoliadau drafft ar y Gymraeg, yn benodol am y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac am beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Beth ydych chi’n meddwl bydd yr effeithiau? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Peth effaith: 4

Dim effaith: 10

Dim ymateb: 5

O blith y rhai a ymatebodd, ychydig yn unig a allai nodi unrhyw effaith y câi’r Rheoliadau drafft ar y Gymraeg. Nododd nifer y bydd fferyllfeydd fel arfer yn cyflogi staff o blith eu poblogaeth leol ac y byddant yn anochel yn cyflogi siaradwyr Cymraeg mewn ardal lle mae cyfran helaeth o’r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, y farn oedd y bydd cyfieithu Asesiadau o Anghenion Fferyllol yn gwneud y terfyn amser 6 mis yn anos, ond dywedwyd bod cyfieithu’r ddogfen yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn gyfartal, a chydag urddas a pharch.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno â’r sylwadau a gyflwynwyd a byddwn yn ystyried ymestyn y trefniadau pontio – bydd hyn yn rhoi mwy o amser ac yn darparu ar gyfer cyfieithu.

**Cwestiwn 28: Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y darpariaethau rheoliadol arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a heb effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

Peth effaith: 4	Dim effaith: 10	Dim ymateb: 5
-----------------	-----------------	---------------

Dim ond dau sylw a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ac ar y cyfan roedd y ddau'n cytuno bod y rheoliadau eisoes yn hwyluso Asesiadau o Anghenion Fferyllol mewn modd sy'n esgor ar effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a gyflwynwyd.

<b>Cwestiwn 29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. A oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.</b>		
Sylwadau: 8	Dim sylwadau: 6	Dim ymateb: 5

Cyflwynwyd nifer o sylwadau i'r cwestiwn hwn a chânt eu crynhoi isod:

- Yn yr asesiad effaith a'r ddogfen ymgynghori (tudalen 15) ceir datganiadau sy'n awgrymu y bydd modd i Fyrddau Iechyd Lleol, dan y rheoliadau diwygiedig, ei gwneud yn ofynnol i fferyllfeydd adleoli er mwyn mynnu bod fferyllfeydd yn cael eu dosbarthu'n rhesymegol. Nid yw'r Rheoliadau'n caniatáu hyn;
- Os awgrymir mewn Asesiad o Anghenion Fferyllol y byddai adleoliad yn cael ei groesawu, dylai unrhyw gontractwr sy'n adleoli gael ei eithrio rhag gofod talu ffi adleoli'r GIG;
- Beth mae 'dosbarthiad rhesymegol' yn ei olygu?
- Mae Asesiadau o Anghenion Fferyllol yn Lloegr yn frith o anghysondebau. Er mwyn osgoi hyn yng Nghymru, efallai y byddai'n briodol i Fwrdd Iechyd Lleol adolygu Asesiad o Anghenion Fferyllol bwrdd iechyd cyfagos;
- Rydym yn falch o weld bod y ddogfen ymgynghori'n cydnabod rôl meddygon fferyllol o ran darparu gwasanaethau fferyllol hanfodol, yn bennaf yn ardaloedd gwledig Cymru;
- Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn, wedi rhoi dull cynhwysol ar waith wrth gyflwyno'r newidiadau hyn ac wedi rhoi cyfle i randdeiliaid fynychu diwrnod briffio llawn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn gyntaf, i ymdrin â'r pwynt yn ymwneud â dosbarthiad rhesymegol fferyllfeydd, mae'n wir dweud nad yw'r rheoliadau'n darparu modd i orfodi contractwr i adleoli, ac ni ddylent wneud hynny. Fodd bynnag, byddant yn darparu modd i fyrddau iechyd ddatgan eu harsylwadau o ran argaeledd a gwasgariad fferyllfeydd presennol.

Bydd modd i fyrddau iechyd ddatgan bod ganddynt ddigon o fferyllfeydd yn eu hardal ac na fyddent yn croesawu ceisiadau i gynnwys mwy, ond efallai y byddent yn croesawu ceisiadau i adleoli o ardal lle ceir gormod o fferyllfeydd i ardal sydd heb ddarpariaeth ddigonol, fel y gellir dosbarthu fferyllfeydd presennol mewn modd mwy rhesymegol.

O ran cynnal adolygiadau gan gymheiriaid ar Asesiadau o Anghenion Fferyllol byrddau iechyd cyfagos, dan y rheoliadau fel y maent ar hyn o bryd mae byrddau iechyd yn rhydd i ymgynghori â phwy bynnag y dymunant, yn cynnwys byrddau iechyd cyfagos, ond byddai mandadu'r arfer yn y rheoliadau yn anghymesur.

## Sylwadau i gloi a'r camau nesaf

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad; bu'n ymarfer gwerthfawr iawn. Mae'n amlwg ar sail yr adborth a gawsom – yn y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn yr ymgynghoriad ffurfiol hwn – fod yna gryn gefnogaeth i'r newidiadau yr ydym yn cynnig eu cyflwyno i wasanaethau fferylliaeth gymunedol yng Nghymru.

O'r ymatebion mae'n glir yr ystyrir y cyfnod chwe mis a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori i fyrddau Iechyd Baratoi eu Hasesiad Anghenion Fferyllol cychwynnol yn annigonol. Rydym wedi penderfynu ymestyn y cyfnod hwn i ddeuddeng mis felly.

Er y bydd y cyfnod 'gwahardd symud' a gynigiwyd yn aros, bydd bellach yn cychwyn chwe mis oddi ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym h.y. bydd y cyfnod 'gwahardd symud' yn cychwyn ar 1 Tachwedd 2020. Bydd disgwyl i fyrddau Iechyd gyhoeddi eu Hasesiad Anghenion Fferyllol cyntaf erbyn 1 Ebrill 2021.

Fodd bynnag, mae'n glir hefyd fod angen i ni barhau â'r dull cydweithredol yr ydym wedi'i roi ar waith hyd yn hyn pan fyddwn yn llunio canllawiau ar gyfer byrddau Iechyd a chontractwyr i'w cynorthwyo i lunio a gweithredu eu hasesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru, yn ogystal â'r broses ar gyfer mynediad i'r farchnad ac ymadael â'r farchnad.

Fel yr ydym wedi'i nodi yn ein hymatebion, byddwn yn newid y rheoliadau drafft pan fo hynny'n briodol er mwyn cynnwys yr adborth a gafwyd, cyn iddynt fynd gerbron y Cynulliad.